# PECYN O WYBODAETH BELLACH AM CEFNOGAETH HIR SEFYDLOG

## ENWI SEDD:

**Gallwch enwi sedd fel anrheg unigryw a pharhaol i ffrind neu rywun annwyl, neu hyd yn oed i chi'ch hun.**

### Rhodd: £300

**Fel diolch am eich rhodd, bydd plac yn dwyn y geiriau o'ch dewis yn cael ei osod ar sedd yn y Brif Theatr am 10 mlynedd.**

Nodwch ein Telerau ac Amodau:

- Nid yw enwi sedd yn cynnwys unrhyw hawliau archebu ar gyfer y sedd a enwir.
- Mae cyfyngiad o 75 llythyren i'r arysgrif ar y plac.
- Unwaith y byddwn wedi derbyn eich rhodd, byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau eich arysgrif.
- Bydd eich plac yn cael ei osod o fewn chwe wythnos i'ch rhodd.
- Bydd eich plac yn aros yn ei le am 10 mlynedd. Yna bydd gennych yr opsiwn i adnewyddu.

## CEFNOGWR STIWDIO:

**Mynnwch gysylltiad parhaus â lle arbennig iawn yn theatr Cymru.**

**Mae pethau anhygoel yn digwydd yn Stiwdio'r Sherman:**

- **Mae clasuron y dyfodol yn cael eu perfformio yno am y tro cyntaf.**
- **Mae'r ysgrifennu newydd mwyaf craff yn cael ei ffurfio o fewn ei waliau.**
- **Mae pobl ifanc yn cael eu profiad cyntaf o berfformio ar lwyfan yno.**
- **Mae aelodau ieuengaf ein cynulleidfa yn aml yn profi theatr byw am y tro cyntaf yno.**

**Dewch yn Gefnogwr Stiwdio heddiw i gefnogi ysgrifennu newydd, lleisiau newydd a phosibiliadau newydd.**

### Rhodd: £200

**Fel diolch am eich rhodd, bydd eich enw yn cael ei ychwanegu at fwrdd penodol gydag enwau holl Gefnogwyr y Stiwdio, a leolir ym mynedfa Stiwdio'r Sherman.**

Nodwch ein Telerau ac Amodau:

- Mae cyfyngiad o 75 llythyren ar yr arysgrif a fydd yn mynd ar y bwrdd Cefnogwyr Stiwdio.
- Unwaith y byddwn wedi derbyn eich rhodd, byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau eich arysgrif.
- Bydd eich enw yn cael ei osod o fewn pedair wythnos i'ch rhodd.
- Bydd cydnabyddiaeth o'ch cefnogaeth ar y bwrdd Cefnogwyr Stiwdio yn parhau yn ei le am 10 mlynedd. Yna bydd gennych yr opsiwn i adnewyddu.